Safer Caerphilly County Borough
Bwrdeistref Sirol Caerffili Saffach

# CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI
## DEDDF YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL, TROSEDDU A PHLISMONA 2014

### Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus (Ymddygiad Gwrthgymdeithasol ac Yfed Alcohol mewn Mannau Cyhoeddus) Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili 2022.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ("y Cyngor"), drwy arfer ei bwerau o dan Adrannau 59, 60, 63, 66, 67, 68, a 72 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 ("y Ddeddf") a phob pŵer galluogi arall, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol.

**1.0** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus (Ymddygiad Gwrthgymdeithasol ac Yfed Alcohol mewn Mannau Cyhoeddus) Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili 2021.

**2.0** Daw'r Gorchymyn i rym ar 21/7/2022 a bydd yn cael effaith am gyfnod o 3 blynedd wedi hynny, oni bai ei fod yn cael ei amrywio neu ei ryddhau drwy orchmynion pellach gan y Cyngor.

**3.0 CYFLWYNIAD**

3.1 Un o flaenoriaethau'r Cyngor yw gweithio gyda phartneriaid rhanbarthol i greu cymunedau diogel a hyderus a hyrwyddo cydlyniant cymunedol er mwyn darparu gostyngiadau mewn trosedd ac anhrefn, lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol a gwella hyder a chydlyniant cymunedol. Gellir defnyddio Gorchmynion Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus (GAMCau), a gyflwynwyd gan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 (y Ddeddf), i reoleiddio gweithgareddau mewn mannau cyhoeddus penodol, er mwyn sicrhau y gall y mwyafrif sy'n cadw at y gyfraith ddefnyddio a mwynhau mannau cyhoeddus, yn ddiogel rhag ymddygiad gwrthgymdeithasol.

3.2 Mae'r Gorchymyn yn ymwneud ag ardaloedd ar draws y Fwrdeistref Sirol a nodwyd gan y gymuned neu asiantaethau partner fel canolbwynt ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddu ac anhrefn.

3.3 Gwneir y Gorchymyn oherwydd bod y Cyngor yn fodlon ar sail resymol bod gweithgareddau yn yr Ardaloedd Cyfyngedig yn cael effaith niweidiol ar ansawdd bywyd y rhai yn yr ardal, neu mae'n debygol y bydd gweithgareddau'n cael y fath effaith, a bod yr effaith sydd, neu a fydd, o natur ddi-baid neu barhaus ac mae, neu bydd, yn afresymol ac yn cyfiawnhau'r cyfyngiadau a osodir gan y Gorchymyn. Mae'r gweithgareddau yn yr Ardaloedd Cyfyngedig, sydd wedi cael eu cynnal neu'n debygol o gael eu cynnal, ac wedi cael neu'n debygol o gael effaith andwyol, yn cynnwys:

- difrod i eiddo
- ymddygiad gwrthgymdeithasol
- yfed alcohol yn gyhoeddus

3.4 Wrth wneud y Gorchymyn hwn, cynhaliwyd ymgynghoriad gyda'r Prif Gwnstabl, Swyddfa

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, Aelodau Etholedig, y Cyngor Tref a Chymunedol, a Phartneriaid Diogelwch Cymunedol.

## 4.0 DIFFINIADAU

4.1 Ystyr "Person(au) Awdurdodedig" yw person a awdurdodir at ddibenion Adran 63 a 68 o'r Ddeddf gan y Cyngor.

## 5.0 CYFYNGIADAU A GOFYNION

5.1 Effaith y Gorchymyn yw gosod y gwaharddiadau a'r gofynion canlynol o fewn unrhyw ran o'r Ardaloedd Cyfyngedig.

5.2 Ni chaiff unrhyw berson o fewn yr Ardaloedd Cyfyngedig yfed alcohol, pan ofynnir iddo beidio â gwneud hynny gan berson neu gwnstabl awdurdodedig.

5.3 Ni chaiff unrhyw berson o fewn yr Ardaloedd Cyfyngedig feddu ar gynhwysydd agored o alcohol.

5.4 Mae adran 63 o'r Ddeddf yn gymwys i'r gwaharddiadau a nodir ym mharagraffau 5.2 a 5.3 o'r Gorchymyn hwn sef pan fo cwnstabl neu berson awdurdodedig yn credu'n rhesymol bod person:

(a) Yn defnyddio alcohol neu wedi bod yn defnyddio alcohol yn groes i waharddiadau 5.2 a/neu 5.3 o'r gorchymyn hwn; neu'n bwriadu yfed alcohol yn groes i waharddiad 5.2 a/neu 5.3 o'r gorchymyn hwn

Gall y cwnstabl neu'r person awdurdodedig ei gwneud yn ofynnol i'r person hwnnw:

(b) Peidio ag yfed alcohol, nac unrhyw beth y mae'r cwnstabl neu'r person awdurdodedig yn credu'n rhesymol ei fod yn alcohol;

(c) Ildio unrhyw beth ym meddiant y person hwnnw sydd yn, neu y mae'r cwnstabl neu'r person awdurdodedig yn credu'n rhesymol ei fod yn, alcohol neu'n gynhwysydd ar gyfer alcohol

Mae'n drosedd i berson, heb esgus rhesymol, fethu â chydymffurfio â gofyniad a osodir gan gwnstabl neu berson awdurdodedig o dan adran 63.

Mae person sy'n euog o drosedd yn agored ar gollfarn yn y Llys Ynadon i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 2 ar y raddfa safonol.

5.5 Yn ogystal â'r cyfyngiadau uchod, nodwyd nifer o'r ardaloedd cyfyngedig fel ardaloedd sy'n profi lefelau uchel o ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'r meysydd hyn wedi'u hamlygu ar y rhestr isod ac mae'r cyfyngiadau canlynol wedi'u cymhwyso:

5.5.1 Ni chaiff unrhyw berson o fewn yr Ardaloedd Cyfyngedig ymddwyn mewn modd afreolaidd, anweddus neu sarhaus.

5.5.2 Ni chaiff unrhyw berson o fewn yr Ardaloedd Cyfyngedig gollwng sbwriel, creu graffiti nac achosi difrod yn fwriadol yn yr ardal hon.

5.5.3 Ni chaiff neb rwystro nac atal person awdurdodedig rhag gweithredu ei ddyletswydd.

5.5.4 Ni chaiff neb fod â cherbyd oddi ar y ffordd o fewn yr Ardaloedd Cyfyngedig.

5.5.5 Bydd unrhyw berson, y mae person awdurdodedig yn amau'n rhesymol ei fod yn torri unrhyw gyfyngiadau neu ofynion o fewn y gorchymyn hwn, yn rhoi ei enw a'i gyfeiriad pan ofynnir iddo wneud hynny gan berson awdurdodedig.

5.6 Mae adran 67 o'r Ddeddf yn gymwys i'r gwaharddiadau a'r gofynion a nodir ym mharagraffau 5.5.1 i 5.5.5 o'r Gorchymyn hwn sef:

(1) Mae'n drosedd i berson heb esgus rhesymol-

(a) Gwneud unrhyw beth y gwaherddir y person rhag ei wneud gan baragraffau 5.5.1 i 5.5.5 o'r Gorchymyn hwn, neu

(b) Methu â chydymffurfio â gofyniad y mae person yn amodol iddo o dan baragraffau 5.5.1 i 5.5.5 o'r Gorchymyn hwn,

(2) Mae person sy'n euog o drosedd o dan yr adran hon yn agored ar gollfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.

(3) Nid yw person yn cyflawni trosedd o dan yr adran hon drwy fethu â chydymffurfio â gwaharddiad neu ofyniad nad oedd gan yr awdurdod lleol bŵer i'w gynnwys yn y gorchymyn diogelu mannau agored cyhoeddus.

(4) Nid yw yfed alcohol yn groes i orchymyn diogelu mannau agored cyhoeddus yn drosedd o dan yr adran hon, ond gweler pwynt 5.4 uchod.

## 6.0 COSB BENODEDIG

6.1 Caiff cwnstabl neu berson awdurdodedig ddyroddi hysbysiad cosb benodedig i unrhyw un y mae'n credu ei fod wedi cyflawni unrhyw drosedd o dan y Gorchymyn hwn. Bydd gan berson sy'n cael hysbysiad cosb benodedig hyd at 14 diwrnod i dalu'r gosb benodedig o £100.00 (neu swm gostyngol o £75 os caiff ei dalu o fewn 7 diwrnod). Bydd methu â thalu'r gosb benodedig yn arwain at gyfeirio'r mater i'w erlyn.

## 7.0 APELIADAU

Rhaid i unrhyw her i'r Gorchymyn hwn gael ei gwneud drwy wneud cais i'r Uchel Lys, gan berson â buddiant, o fewn y cyfnod o chwe wythnos sy'n dechrau â'r diwrnod y gwnaed y gorchymyn. 'Person â buddiant' yw rhywun sy'n byw, sy'n gweithio'n rheolaidd o fewn, neu sy'n ymweld â'r Ardaloedd Cyfyngedig. Mae hyn yn golygu mai dim ond y rhai sy'n cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan y cyfyngiadau sydd â'r grym i herio. Mae'r hawl i herio hefyd yn bodoli pan fydd Gorchymyn yn cael ei amrywio gan y Cyngor.

Gall personau â buddiant herio dilysrwydd y gorchymyn hwn ar ddwy sail:

- nad oedd gan y Cyngor bŵer i wneud y Gorchymyn na chynnwys gwaharddiadau neu ofynion penodol
- na chydymffurfiwyd â gofyniad y ddeddfwriaeth mewn perthynas â'r Gorchymyn.

## 1. *Gorchmynion Diogelu Mannau Agored (GAMCau) Bwrdeistref Sirol Caerffili gyda chyfyngiadau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol*

**Gorsafoedd Bysiau**

- Gorsaf Fysiau Nelson
- Gorsaf Fysiau Bargod
- Gorsaf Fysiau Coed Duon
- Gorsaf Fysiau Caerffili

**Cysgodfannau Bysiau a Safleoedd Bysiau yn y lleoliadau canlynol:**

- Chartist Way, ger Frost Place Coed Duon
- Chartist Way, Gibbs Close, Coed Duon
- Cefn-y-pant, Crossways, Trecelyn
- Twynyffald Road, Cefn Fforest, Coed Duon
- Ysgol Gyfun Trecelyn, Trecelyn
- Tafarn The Crown, Bryn Road, Pontllan-fraith, Coed Duon
- Sgwâr Abertridwr, Abertridwr, Caerffili
- Cylch Penllwyn, Edge Hill, Pontllan-fraith, Coed Duon
- Pen-y-Dre, Rhymni
- Glan-y-nant, Rhymni
- Heol Aneurin, Pen-yr-heol, Caerffili

## 2. *Gorchmynion Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus (GAMCau) Bwrdeistref Sirol Caerffili gyda chyfyngiadau ar yfed alcohol mewn mannau cyhoeddus*

**Mae cyfyngiadau ychwanegol o ran ymddygiad gwrthgymdeithasol yn eu lle ar gyfer y lleoliadau hynny sydd wedi'u hamlygu.**

| Ward | Ardal / Strydoedd GAMCau |
|---|---|
| Twyn Carno | ***RHYMNI***<br>• Y Stryd Fawr<br>• Stryd Fawr Uchaf<br>• Church Street<br>• Maes Parcio Llyfrgell Rhymni |
| Moriah | • Y Stryd Fawr<br>• Parc Coffa'r Rhyfel<br>• Maes yr Eisteddfod |
| Pontlotyn | ***PONTLOTYN***<br>• Merchant Street<br>• Y Stryd Fawr<br>• Stuart Street<br>• Picton Street<br>• School Street<br>• River Road<br>• Y Maes Hamdden |

| | |
|---|---|
| | • Yr Orsaf Drenau |
| Cwm Darran | ***FOCHRIW***<br>• Y Gelli a'r tir cyfagos gan gynnwys y lloches ieuenctid ac ardal yr wal gicio<br>• Pontlottyn Road<br>• Tir o amgylch Canolfan Gymunedol Fochriw<br>• Cae Glas Newydd a'i lonydd cefn<br>• Maes parcio yng Nghae Glas Newydd |
| Aberbargod | • Hyd Commercial Street o'r gyffordd â Bedwellty Road gan gynnwys<br>• Bedwellty Road (ger y goleuadau traffig)<br>• Pob cyffordd a phwynt mynediad i'r ffyrdd ochr a lonydd mynediad canlynol ar hyd Commercial Street:<br>• Stryd yr Ysgol, Cwrt Coch Street, Elm Street, Church Street, George Street, James Street, Byron Road (mae dwy ochr Commercial Street wedi'u cynnwys)<br>• Hefyd i bob llwybr a phwynt mynediad i lonydd cefn ar hyd gyfan y Stryd Fasnachol<br>• Ardal Chwarae Cwrt Coch Street<br><br>***BRITANNIA***<br>• Lôn yr Angel<br>• Britannia Walk<br>• Salway Avenue<br>• Farm View |
| Bargod | ***BARGOD***<br>• Stryd Fawr Isaf<br>• Stryd Fawr Uchaf<br>• Y Stryd Fawr<br>• Heolddu Road<br>• McDonnell Road<br>• Hanbury Road<br>• Y Sgwâr, Bargod<br>• Maes Chwarae i Blant, Llancayo Street |
| Gilfach | ***GILFACH***<br>• Commercial Street, Gilfach<br>• Vere Street, Gilfach |
| Catwg Sant | ***GELLIGAER***<br>• Bryn y Castell<br>• St Cattwg's Avenue<br>• Heol Edward Lewis<br>• Oxford Street gan gynnwys yr isffordd sy'n cysylltu â Bryn y Castell<br><br>***PENPEDAIRHEOL***<br>• Llwyn Onn<br>• Y Sgwâr |

| | |
|---|---|
| | • Hospital Road<br>•<br>• Pengam Road o'r Sgwâr i'r gyffordd â Haulwen Road<br>• Pengam Road o'r Sgwâr i'r gyffordd â Glyngaer Road<br>• Hengoed Road o'r Sgwâr i'r gyffordd â Rolls Avenue<br>• Lôn gefn yn rhedeg yn gyfochrog â Heol Hengoed rhwng Hospital Road a Berllanlwydd Street |
| Hengoed | • Llwybr troed/llwybr beicio sy'n ffinio â'r A469<br>• Gorsaf Reilffordd Hengoed |
| Pengam | • Orchard Lane<br>• Hodges Crescent<br>• Britannia Terrace<br>• Filâu Britannia<br>• Yr Ecoparc gan gynnwys Rhodfa Dylan |
| Ystrad Mynach | ***CANOL TREF YSTRAD MYNACH***<br>• Y Stryd Fasnachol a'r holl lonydd cefn a lonydd mynediad sy'n ffinio â'r Stryd Fasnachol<br>• Stryd Ganolog a phob lôn gefn a lonydd mynediad sy'n ffinio<br>• Church Street a'r holl lonydd cefn a lonydd mynediad gerllaw<br>• Lisburn Street a'r holl lonydd cefn a lonydd mynediad sy'n ffinio<br>• Oakfield Street a'r holl lonydd cefn a lonydd mynediad gerllaw<br>• Lewis Street a'r holl lonydd cefn a lonydd mynediad gerllaw<br>• Cyffordd Lewis Street/Bedwlwyn Street<br>• Bedwlwyn Street a phob lôn gefn a lonydd mynediad sy'n ffinio<br>• Cyffordd Bedwlwyn Street a Bedwlwyn Road<br>• Bedwlwyn Road a phob lôn gefn a lonydd mynediad sy'n ffinio<br>• Davies Street a'r holl lonydd cefn a lonydd mynediad gerllaw<br>• Llwybr troed/llwybr beicio sy'n ffinio â'r A469<br>• Pengam Road a'r holl lonydd cefn a lonydd mynediad gerllaw<br>• Cefn y Ganolfan Chwaraeon a chaeau'r ysgol i'r llwybr troed<br>• Holl dir yr Ysgol a phob lôn gefn a lonydd mynediad gerllaw<br>• Yr A472 i'r gyffordd â Stryd Lewis<br>• Parc Ystrad Mynach |
| Tredegar Newydd | ***TREDEGAR NEWYDD***<br>• Commercial Street<br>• James Street |

| | |
|---|---|
| | • Tredegar Road<br><br>***TREFFILIP***<br>• Stryd Derlwyn a'i lonydd cefn<br>• Penrhyn Terrace a'i lonydd cefn<br>• Fothergills Road a'i lonydd cefn<br>• Stryd Jones<br>• Llwybrau troed a grisiau sy'n cysylltu Stryd Derlwyn, Stryd Jones, Penrhyn Terrace a Fothergills Road<br>• Fernhill Terrace a'i lonydd cefn<br>• Cefn-Rhychdir Road a'i lonydd cefn<br>• Pritchard Terrace a'i lonydd cefn<br>• Meadow Terrace a'i lonydd cefn<br>• Dafolog Terrace a'i lonydd cefn<br>• Farm Terrace a'i lonydd cefn<br>• Tir o amgylch Canolfan Gymunedol Treffilip<br>• Maes parcio ger Canolfan Gymunedol Treffilip<br>• Ardal laswelltog ar Bedlwyn Road<br>• Bedlwyn Road<br>• Birchgrove, Tirphil |

| Ward | Ardal / Strydoedd GAMCau |
|---|---|
| Argoed | |
| Coed Duon | ***COED DUON***<br>• Bloomfield Road<br>• Pentwyn Road<br>• Cefn Road<br>• High Street<br>• Woodbine Road<br>• Wesley Road<br>• Hall Street<br>• George Street a'i lonydd mynediad cefn<br>• William Street a'i lonydd mynediad cefn<br>• Bridge Street a'i lonydd mynediad cefn<br>• Stryd David<br>• Thorncombe Road<br>• Maes Chwarae yn Thorncombe Road<br>• • Homeland Place<br>• Lôn Grafel<br>• Garfield Street<br>•<br>• Maes chwarae ar ddiwedd Garfield Street<br>•<br>• Heol Ladysmith<br>• Albion Terrace Tir oddi ar Land off Hall Street a Maes Parcio'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth<br>• Gorsaf Fysiau<br>• Thorncombe Road Maes Parcio Rhif 1 |

| | |
|---|---|
| | • Thorncombe Road Maes Parcio Rhif 2<br>• Thorncombe Road Maes Parcio Rhif 3<br>• Maes Parcio'r Stryd Fawr<br>• Maes Parcio Heol y Clogwyn<br>• Maes Parcio gerllaw'r Red Lion, y Stryd Fawr<br>• Maes Parcio Wesley Road<br>• Maes Parcio Woodbine Road<br>• Maes Parcio'r Orsaf Fysiau<br>• Gordon Road<br>• Y Parc, Caeau Libanus<br>• Maes y Sioe, Heol Greenwood<br>• Sunnybank Road<br>• Twynyffald Road<br>• Ty Isha Terrace<br>• Bryn Road<br>• Ystâd Ffordd Apollo<br>• Ffordd Apollo<br>• Chartist Way<br>• Gibbs Close<br>• Palmer Place<br>• Waunllwyn Crescent<br>• Parfitt Place<br>Croeso Square |
| Cefn Fforest | ***CEFN FFOREST***<br>• Maes Lles<br>• Bryn Road Y Sgwâr, Rhodfa Cefn Fforest<br>• Twyn Gardens |
| Crymlyn | *CROESPENMAEN*<br>• Cae pêl-droed ar ddiwedd Meadow Walk, Overdale Walk, Grove Walk, Shelley Close, Byron Place, Cherry Grove a Williow Park<br><br>*TRINANT*<br>• Trinant Terrace |
| Penmaen | ***OAKDALE***<br>• Sgwâr Oakdale<br>• Adeiladau Canolog<br>• Aberconwy Place<br>• Coedlan Ganolog<br>• Park Terrace<br>• Sy David's Avenue<br>• Llwybr troed rhwng Heol y Clogwyn a St David's Avenue |
| Pontllan-fraith | ***PENLLWYN***<br>• St Sannan Road<br>• Heol Trelyn<br>• Mynyddislwyn Close<br>• Highmead Pen-y-mead<br>• Rhymney Close<br>• Broadmead |

| | |
|---|---|
| | • Fleur-d- Lys Avenue<br><br>***PONTLLAN-FRAITH***<br>• Newbridge Road a'i lonydd cefn<br>• Heol Maes-y-Nant<br>• Llanarth Road<br>• Teras Islwyn a'i lonydd cefn<br>• Musselwhite Court<br>• Millbrook Road<br>• Parc Islwyn<br>• Maes Parcio'r Llys oddi ar Blackwood Road |
| Crosskeys | ***CROSSKEYS***<br>• Parc Waunfawr<br>• Gladstone Street o'r gyffordd â Cobden Street<br>• Cobden Street<br>• Waunfawr Road<br>• Y Llwybr troed o amgylch Llwybr Waunfawr a rhandiroedd sy'n arwain at Gladstone Street<br>• Mynedfa i Barc Pandy<br>• Gladstone Street i fynedfa'r llwybr beicio<br>• Hyd gyfan y llwybr beicio wrth ochr Parc Waunfawr<br>• Risca Road |
| Trecelyn | ***TRECELYN***<br>• Y Stryd Fawr<br>• Celynen Road<br>• Bridge Street<br>• Tir o amgylch Canolfan Hamdden Trecelyn gan gynnwys y tir o'i gwmpas a'r maes parcio<br>• Pont Calzaghe<br>• Maes Parcio y tu ôl i Spar, Old Pant Road |
| Abercarn | ***ABERCARN***<br>• Y Stryd Fawr<br>• Ardal y ddistyllfa<br><br>***CWMCARN***<br>• Jamesville<br>• Newport Road<br>• Isffordd Fferm y Capel<br>• Grandstand, Maes Lles Abercarn |
| Dwyrain Rhisga | ***RHISGA***<br>• Stryd y Felin<br>• Maes Parcio a siopau cyfagos, cyffordd Elm Drive a Heol y Celyn, Tŷ Sign<br>• Maes Parcio a siopau o amgylch y tir, ardal wedi'i ffinio gan Elm Drive, Aster Close a<br>• Thistle Way<br>• Elm Drive<br>• Manor Way |
| Gorllewin Rhisga | • Tredegar Street<br>• Commercial Street |

| | |
|---|---|
| | • Dan y Graig Road gan gynnwys tir dan drosffordd yr A467<br>• Tiroedd Tredegar, Parc Rhisga<br>• Lôn sy'n cysylltu Sarn Place â St Mary's Street<br>• Lôn y tu ôl i Commercial Street, Pont-y-meistr<br>• Park Road<br>• Station Road<br>• Fields Road<br>• Maes y Baddonau |

| Ward | Ardal / Strydoedd GAMCau |
|---|---|
| Llanbradach | ***<u>LLANBRADACH</u>***<br>• Teras y Deri a'i lonydd cefn<br>• Heol yr Orsaf<br>• Maes Parcio ar gornel Oak Terrace a Station Road<br>• Y Sgwâr<br>• Stryd Fawr a'i lonydd cefn<br>• Parc Llanbradach |
| Cwm Aber | ***<u>ABERTRIDWR</u>***<br>• Y Sgwâr<br>• Y Stryd Fawr (o'r Sgwâr i'r gyffordd â Brook Street)<br>• Church Road (o'r Sgwâr i'r gyffordd â Tridwr Road)<br>• Clos Morgan Gruffydd<br>• Thomas Street (o'r Sgwâr i'r gyffordd â Cross Street a Kings Close)<br>• King Street (o'r gyffordd â Cross Street i'r Stryd Fawr)<br>• Tridwr Road (i'r gyffordd ag Ilan Road)<br>• Kings Close<br>• William Street<br>• Cross Street<br>• Plas Nant<br>• Farm Close |
| Pen-yr-heol | ***<u>PEN-YR-HEOL, CAERFFILI</u>***<br>• Troed-y-bryn<br>• Bryntirion<br>• Rhiw Fach<br>• Heol Tir Gibbon<br>• Tir Coed<br>• Bryn Glas<br>• Gelli Deg<br>• Pleasant Place<br>• Bryn Teg<br>• Maes Hir<br>• Cae Glas<br>• Heol Aneurin o'r gyffordd â'r B4263 i'r gyffordd â Heol Tir Gibbon<br>• Parc Pen-yr-heol |

| | |
|---|---|
| | • Maes Parcio y tu ôl i Barc Pen-yr-heol<br>• Ardal o amgylch siopau yn Heol Aneurin, Pen-yr-heol o Glan Ffrwd i Heol-y-Gogledd<br>• Station Terrace<br><br>**YSTÂD HENDREDENNY, CAERFFILI**<br>• Groeswen Road<br>• Raglan Court Groeswen Drive wrth y gyffordd â Groeswen Road<br>• Mynedfa i Pembroke Court<br>• Monmouth Court |
| Morgan Jones | ***CAERFFILI***<br>• Sgwâr Piccadilly<br>• Heol y Felin a'i lonydd cefn o'r gyffordd â Sgwâr Piccadilly i'r gyffordd<br>• â Pharc Churchill<br>• Parc Morgan Jones<br>• Maes Parcio Crescent Road<br>• Castle Street<br>• St Cenydd Road<br><br>***PARC CHURCHILL, CAERFFILI***<br>• Lewis Drive a'i lonydd cefn<br>• Howard Drive a'i lonydd cefn<br>• Dyfed Drive a'i lonydd cefn<br>• Davies Drive a'i lonydd cefn<br>• Dylan Drive a'i lonydd cefn<br>• Llwybr troed o Lewis Drive i Ystâd Ddiwydiannol Pontygwindy<br>• Llwybr troed y tu ôl i Dylan Drive |
| Sant Martin | • Parc Dafydd Williams a thiroedd o amgylch Castell Caerffili<br>• Gorsaf Fysiau Caerffili<br>• Railway Terrace<br>• Station Terrace<br>• Maes Parcio'r Twyn<br>• Man chwarae y tu ôl i Bartlett Street<br>• Ardal y Gofadail<br>• Sgwâr y Twyn<br>• Sgwâr yr Orsaf<br>• Cardiff Road a'i lonydd cefn i'r de o'r gyffordd â Heol Sant Martin a King Edward Avenue<br>• Castle Street<br>• Stryd Clive<br>• Pentrebane Street<br>• Stockland Street<br>• St Fagans Street<br>• Park Lane<br>• Bradford Street and its rear lanes<br>• Clifton Street |

| | |
|---|---|
| | • <br>• White Street a'i lonydd cefn<br>• Station Terrace<br>• Bartlett Street a'i lonydd cefn (o'r gyffordd â White Street i Cardiff Road)<br>• Broomfield Street a'i lonydd cefn<br>• Windsor Street a'i lonydd cefn<br>• Salop Street a'i lonydd cefn<br>• Market Street |
| Bedwas, Tretomos a Machen | ***BEDWAS***<br>• Church Street a'i lonydd cefn<br>• Parc y Plant ac ardal laswelltog yn ffinio â gorsaf yr heddlu<br>• St Mary's Street a'i lonydd cefn<br>• St Catherine's Close a'i lonydd cefn<br><br>***TRETOMoS***<br>• Y Gofadail a'r ardal gyfagos<br>• Navigation Street<br>• Newport Road a lonydd sy'n arwain at Bryn-y-Frân Avenue a Heol-yr-Ysgol<br>• Y rhes o siopau yn Llanfabon Drive gan gynnwys y lôn gefn sy'n ymuno â'r Bryn<br>• Tir diffaith yng nghefn Llanfabon Drive a Bryn Awel<br>• Taith Gerdded Afon Tretomos, Caerffili<br><br>***GRAIG-Y-RHACA***<br>• Rhodfa Penllwyn |

Dyddiwyd y 21 o 7 2022

Gosodwyd Sêl Gyffredin
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yma
ym mhresenoldeb

Y Swyddog Awdurdodedig